



ADDEWID CYDRADDOLDEB

Ionawr 2014

CYNNWYS

	Rhif Tudalen.
1.00 Cynnwys	2
2.00 Beth yw ystyr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth?	2
2.01 Diffiniadau	2
2.02 Deddf Cydraddoldeb 2010	3
3.00 Beth yw Addewid Cydraddoldeb?	3
4.00 Yr hyn rydym wedi ei gyflawni hyd yn hyn?	4
4.01 Contractwyr	4
4.02 Ein Cartrefi	5
4.03 Cyfathrebu gyda Phreswylwyr	5
4.04 Cyfranogiad Preswylwyr	6
4.05 Recriwtio	7
4.06 Cyflogaeth	7
4.07 Proffilio Preswylwyr	8
4.08 Adrodd	9
4.09 Gweithio mewn Partneriaeth	9
4.10 Achrediadau	10
5.00 Datblygiadau'r Dyfodol	10
5.01 Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA)	11
5.02 Gwybodaeth broffilio	11
5.03 Partneriaethau	11
5.04 Grŵp Ffocws	11
5.05 Rhwydweithiau Cydraddoldeb	12
5.06 Mynediad i Wybodaeth	12
5.07 Tryloywder	12
6.00 Monitro ac Adolygu	13
ATODIAD 1	14
ATODIAD 2	15

ADDEWID CYDRADDOLDEB

1.00 CYFLWYNIAD

Mae Melin Homes yn landlord cymdeithasol cofrestredig (RSL) sydd â'r nod o ddarparu cartrefi fforddiadwy o safon, sy'n cyfrannu at greu'r math o gymunedau y mae pobl yn awyddus i chwarae rhan weithredol ynddynt ac yn hapus i fyw a gweithio ynddynt.

Mae gan Melin ymagwedd ffres a deinamig, ac mae'n bwriadu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol yn y cymunedau y mae'n gweithredu ynddynt. Mae Melin yn ddarparwr tai a gwasanae thau o safon ym Mlaenau Gwent, Sir Fynwy, Casnewydd, Powys a Thorfaen. Rydym yn berchen ar, ac yn rheoli dros 3,700 o dai ac yn cyflogi dros 220 o staff.

Ein Gweledigaeth



Ein Gwerthoedd.....mae ein gwaith yn cael ei danategu gan



Mae Melin yn ymrwymedig i sicrhau bod Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar flaen y gad o ran ein holl wasanaethau. Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli Cynllun Cydraddoldeb Sengl Melin ac yn tynnu sylw at ein cyflawniadau cyfredol a'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud yn y dyfodol.

Mae Melin yn credu bod gan bawb y mae Melin mewn cysylltiad â nhw yr hawl i gael eu gwerthfawrogi yn gyfartal ac i gael cyfle cyfartal.

2.00 BETH YW YSTYR CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH?

2.01 Diffiniadau

Mae cydraddoldeb yn ymwneud â sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg ac yn cael yr un cyfleoedd. Nid yw'n golygu trin pawb yr un peth; ond yn hytrach, cydnabod bod pobl yn wahanol a gydag anghenion gwahanol.

Mae amrywiaeth yn cydnabod bod pawb yn wahanol ac yn defnyddio'r gwahaniaethau hynny mewn ffordd gadarnhaol sy'n helpu Me lin i deilwra ein gwasanaethau mewn ffordd sy'n diwallu anghenion pawb

2.02 Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn berthnasol i Gymru, Lloegr a'r Alban ac yn dod â naw darn o ddeddfwriaeth ac oddeutu 100 o offerynnau statudol mewn un darn o ddeddfwriaeth at ei gilydd. Pwrpas hyn yw gwneud y gyfraith yn fwy syml a helpu i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghydraddoldeb; helpu i wneud cymdeithas yn decach. Mae'n darparu ymagwedd sengl at wahaniaethu drwy ymestyn yr amgylchiadau lle mae unigolyn yn cael ei ddiogelu rhag gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth oherwydd "nodweddion gwarchoddedig", sy'n golygu bod pobl yn cael eu diogelu yn awr gan y gyfraith rhag gwahaniaethu ar sail y "nodweddion gwarchoddedig" canlynol:

Oedran: gwneud yn siŵr nad yw oedrannau penodol neu ystod o oedrannau yn cael eu trin yn annheg.

Anabledd: mae gan berson anabledd os oes ganddo nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r person hwnnw i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Rhywedd: bod yn ddyn neu'n fenyw a gwneud yn siŵr bod y ddau yn cael eu trin yn deg.

Ailbennu rhywedd: y broses o newid o un rhyw i'r llall.

Hil: mae hyn yn cynnwys lliw, cenedligrwydd neu wreiddiau cenedlaethol .

Crefydd neu gred: mae hyn yn cynnwys y credoau crefyddol sy'n effeithio ar y ffordd rydych yn byw eich bywyd a'r dewisiadau a

wnewch. Mae hyn yn cynnwys pobl nad oes ganddynt unrhyw grefydd.

Cyfeiriadedd rhywiol: Mae hyn yn cynnwys pobl sydd ag atyniad rhywiol tuag at eu rhyw eu hunain, y rhyw arall neu'r ddau ryw.

Priodas a phartneriaeth sifil: Mae hyn yn golygu bod rhaid i bartneriaid sifil gael eu trin yn yr un modd â chyplau priod o ran ystod eang o faterion cyfreithiol.

Beichiogrwydd a mamolaeth: Mae hyn yn amddiffyn menywod rhag cael eu trin yn annheg oherwydd absenoldeb mamolaeth mewn cyd-destun gwaith, ac mae bellach yn cynnwys triniaeth annheg i famau sy'n bwydo ar y fron. Mae hyn hefyd yn sicrhau y bydd absenoldeb mamolaeth yn cael ei ganiatáu.

3.00 BETH YW ADDEWID CYDRADDOLDEB?

Dogfen unigol yw ein Haddewid Cydraddoldeb (EP) sy'n amlinellu sut rydym yn bwriadu cyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol a rheoleiddiol i hyrwyddo cydraddoldeb a dileu gwahaniaethu anghyfreithlon. Mae ein Haddewid Cydraddoldeb yn cyflwyno ein nodau a'n cyflawniadau o ran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth mewn un ddogfen. Mae'n nodi sut rydym yn hyrwyddo arfer da ar draws ein gweithrediadau, ac yn amlygu ein cynllun gweithredu ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.

Hwn yw ein Haddewid Cydraddoldeb cyntaf, ac mae'n gweithredu fel dogfen fyw a fydd yn cael ei datblygu a'i gwella'n barhaus. Ynghyd â'i gynllun gweithredu, bydd ein Haddewid Cydraddoldeb yn ein helpu i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlynol:

- Bod gennym drefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol i graffu ar berfformiad o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth ac i osod targedau heriol;
- Bod ein holl wasanaethau yn anwahaniaethol drwy asesu effaith yr holl bolisiau rheng flaen, gweithdrefnau, strategaethau a gwasanaethau craidd;
- Ein bod yn darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol sy'n ymateb i anghenion unigol ein cwsmeriaid;
- Ein bod yn cynnig ffyrdd amrywiol i'n holl gwsmeriaid gysylltu â ni;
- Bod ein gwybodaeth am ein proffil cwsmeriaid yn tyfu, gan sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu llunio a'u hadolygu drwy'r ddealltwriaeth sydd gennym o'n cwsmeriaid;
- Y bydd ein gweithlu yn deall ein gweledigaeth a'n dyheadau ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth a'u rolau wrth gyflawni hyn;

- Ein bod yn hyrwyddo amgylcheddau diogel sy'n rhydd o unrhyw fath o aflonyddu, bwlio a throseddau casineb;
- Bod ein prosesau caffael a'n partneriaid cyflenwi yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth;
- Ein bod yn cael ein cydnabod yn yr amgylchedd allanol fel sefydliad sy'n trin pobl yn deg ac sy'n rhagweithiol wrth asesu effaith ein gweithgareddau mewn materion cydraddoldeb.

4.00 YR HYN RYDYM WEDI EI GYFLAWNI HYD YN HYN?

Er mai hwn yw ein Haddewid Cydraddoldeb cyntaf, rydym wedi bod yn gweithredu i hyrwyddo Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ers sefydlu Melin yn 2007. Mae gan Melin ddatganiad o addewid cydraddoldeb (Atodiad 1) sy'n ddogfen gyhoeddus ac sydd ar gael i'n holl staff a chwsmeriaid.

4.01 Contractwyr

Mae'n ofynnol bod holl gontractwyr cymeradwy Melin yn mabwysiadu ac yn glynu at y Cod Ymddygiad i Gontractwyr. Un o ofynion y cod hwn yw bod rhaid i'r holl gontractwyr ddarparu copi o'u Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ei hun neu lynu at ein polisi ni. Mae'r cod hefyd yn cynnwys canllawiau i gontractwyr ar gyfathrebu gyda Phreswylwyr sydd ag anabledau dysgu.

Hefyd, fel rhan o'r broses dendro ar gyfer gwaith newydd, mae contractwyr yn cael eu hasesu ar sail eu gweithgareddau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, ac mae archwiliadau Adnoddau Dynol rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfer ein contractwyr llyfr agored.

4.02 Ein Cartrefi



Mae ein holl gartrefi yn cael eu hadeiladu i gydymffurfio â safonau Cartrefi Gydol Oes. Cartrefi cyffredin yw Cartrefi Gydol Oes sydd wedi'u cynllunio i gynnwys 16 o feini prawf dylunio y gellir eu cymhwyso yn gyffredinol at gartrefi newydd am y gost isaf. Mae pob nodwedd dylunio yn ychwanegu at gysur a chyfleustra'r cartref ac yn cefnogi anghenion newidiol unigolion a theuluoedd yn ystod gwahanol gyfnodau mewn bywyd.

Mae Melin hefyd yn cynnal rhaglen gynhwysfawr o Addasiadau Ffisegol, yn y cam adeiladu ac ar ein heiddo hŷn.

4.03 Cyfathrebu gyda Phreswylwyr

Mae Melin yn gwneud pob ymdrech i gyfathrebu â'n preswylwyr mewn amryw o fformatau gwahanol yn dibynnu ar anghenion cwsmeriaid. Yn y gorffennol, mae Melin wedi cynhyrchu dogfennau mewn braille, ar dâp neu wedi eu cyfieithu i wahanol ieithoedd.



Rydym yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu The Big Word i sicrhau ein bod yn cyfathrebu gyda phreswylwyr a darpar breswylwyr yn yr iaith o'u dewis.

Mae gan ein system Reoli Tai hefyd y swyddogaeth o ateb gofynion preswylwyr, er enghraifft, argraffu llythyrau mewn ffont mawr, anawsterau clywed a gofynion e-bost, anabledau sy'n golygu ei fod yn cymryd mwy o amser i ateb y drws ac yn y blaen.

Mae Melin yn cydnabod y dylai preswylwyr fedru mynegi eu barnau a'u hanghenion yn fwyaf effeithiol yn eu hiaith ddewisol. Rydym hefyd yn cydnabod bod galluogi ein Preswylwyr i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn fater o arfer da, ac y gallai gwrthod yr hawl i'n preswylwyr ddefnyddio eu hiaith ddewisol eu rhoi mewn sefyllfa anfanteisiol.

Cynllun Iaith Gymraeg Melin:

- Galluogi ein preswylwyr i gysylltu â Melin drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny;
- Sicrhau gwasanaethau o safon drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Anelu at drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal mewn dogfennau allweddol ac ar ein gwefan.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei adolygu bob tair blynedd, ac mae ganddo gynllun gweithredu treigl sy'n cael ei fonitro gan y Bwrdd. Mae'n ofynnol i ni gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

Mae dogfennau allweddol Melin yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg, ac mae pob dogfen arall ar gael yn Gymraeg ar gais.

4.04 Cyfranogiad Preswylwyr

Mae'n ofynnol i Melin gynhyrchu Strategaeth Ymgysylltu â Phreswylwyr flynyddol, sy'n annog preswylwyr o bob grŵp gwarchodedig i gymryd rhan trwy adolygu polisïau, gweithdrefnau ac arferi on gwaith perthnasol os bydd angen.

Ar hyn o bryd, mae gan Banel Preswylwyr Melin aelodau anabl, ac mae'n ymroi i hyrwyddo aelodaeth bellach. Mae Melin hefyd yn talu am yr holl gostau cludiant ar gyfer pob aelod o'r panel preswylwyr, ac yn trefnu cludiant pwrpasol sy'n bodloni'r holl ofynion unigol.

Yn ogystal â hyn, mae Melin wedi ymgymryd â'r canlynol i geisio darparu'r un cyfleoedd i'n holl breswylwyr:



Bws Melin - Mae gennym fws brand pwrpasol sy'n cael ei ddefnyddio i fynd â'n gwasanaethau at y preswylwyr a'n cymunedau, ac mae wedi'i addasu i bobl anabl ac yn darparu WiFi.



Dolen Glyw - mae gennym system dolen glyw yn ein Hystafell Fwrdd a'n derbynfydd.



Digwyddiadau – mae ein holl ddigwyddiadau yn cael eu hasesu ar gyfer materion hygrychedd, ac yn cael eu hamrywio yn ôl yr awr o'r dydd neu'r wythnos h.y. digwyddiadau gyda'r nos neu ar y penwythnos.



Mae ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn cael ei gynnal mewn gwesty mawr gyda mynediad hawdd i bobl anabl.



Fforwm Ieuenctid – Mae gan Melin Fforwm Ieuenctid sy'n cynnwys preswylwyr, er mwyn ennyn diddordeb pobl ifanc yn ein gweithgareddau.



Anableddau – mae ein holl swyddfeydd ac adeiladau yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, ac mae gennym berthynas agos â'r Prosiect Cyngor ar Anabledd (DAP).

4.05 Recriwtio

Mae gan Melin ymagwedd gyson ym mhob maes o recriwtio a dethol. Mae'r holl fanylion personol yn cael eu tynnu oddi ar y ffurflen gais cyn llunio rhestr fer. Mae gwybodaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth hefyd yn cael ei chasglu ac yn cael ei gwahanu oddi wrth y ffurflenni cais a'u defnyddio ar gyfer diben monitro.

Bydd y Gymdeithas yn cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag unrhyw dan-gynrychiolaeth yn y broses o recriwtio staff, ac i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn llwyddiant neu gadw ar gyfer unrhyw grŵp cydraddoldeb. Bydd unrhyw ymgeiswyr sydd ag anabledd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad, cyn belled â'u bod yn bodloni manyleb y person.

Mae Melin yn hysbysebu swyddi gwag mewn gwahanol leoliadau, oddi ar-lein ac ar-lein, er mwyn sicrhau na wahaniaethir yn erbyn un rhyw un o ran mynediad at wybodaeth a chael cyfleoedd. Mae Melin hefyd yn hyrwyddo pob hysbyseb swydd gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Tai Pawb a Chwareteg.

Mae Melin yn cyflogi staff Gwrywaidd a Benywaidd fel rhan o'n Gweithlu Uniongyrchol (DWF) ac yn gweithredu i annog ymgeiswyr gwrywaidd a benywaidd fel ei gilydd yn ein proses recriwtio.

4.06 Cyflogaeth

Mae'n rhaid i bob aelod o staff gael hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth gorfodol bob blwyddyn, ac mae Cydraddoldeb yn ffurfio rhan hanfodol o'r broses sefydlu staff newydd. Mae'n ofynnol i'r holl staff a rheolwyr lynu at y cod ymddygiad i staff a rheolwyr, sy'n cyfeirio'n benodol at faterion Cydraddoldeb.

Mae Melin yn trin yr holl staff ar sail deg a chyfartal mewn perthynas â'r isod:

- telerau ac amodau cyflogaeth;
- y cyfle i gael dyrchafiad, trosglwyddiad, hyfforddiant neu fuddion eraill;

- diswyddo annheg;
- peidio â thrin gweithwyr yn llai ffafriol nag eraill;
- peidio â goddef aflonyddu yn y gweithle.

Mae Melin yn gweithio i ddileu unrhyw rwystrau a allai atal llwyddiant neu ddatblygiad unrhyw staff. Yn unol â gofynion **Deddf Cydraddoldeb 2010**, bydd y Gymdeithas yn gwneud addasiadau rhesymol i ymgeiswyr swyddi anabl neu staff anabl os oes angen.

Byddwn yn gwneud pob ymdrech rhesymol i:

- newid oriau gwaith y person;
- gaffael cyfarpar arbennig neu addasu offer presennol;
- ganiatáu absenoldebau yn ystod oriau gwaith ar gyfer adsefydlu, asesu neu driniaeth;
- ddarparu hyfforddiant ychwanegol;
- addasu llawlyfrau cyfarwyddiadau neu gyfeirio;
- ddarparu goruchwyliaeth ychwanegol a / neu gymorth;
- wneud addasiadau ffisegol i adeiladau.

Mae ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael ei gynnwys yn y cod ymddygiad i staff a rheolwyr, ac mae unrhyw ymddygiad gwahaniaethol yn cael ei gymryd o ddifrif, ac yn cael ei drin yn unol â'r polisi a'r weithdrefn Diswyddo a Disgyblu.

4.07 Proffilio Preswylwyr

Yn ystod 2012-13, cychwynnom ar ymarfer Proffilio Preswylwyr trwy gyfrwng holiadur cynhwysfawr sy'n gofyn gwybodaeth fanwl i'n Preswylwyr er mwyn deall natur amrywiol ac i'n helpu i deilwra eu hanghenion. Ar hyn o bryd, rydym wedi cael cyfradd ymateb o 70%, ac rydym yn bwriadu cynyddu hyn i sicrhau ein bod yn casglu cymaint o wybodaeth ag y gallwn a chael gwell dealltwriaeth o anghenion ein preswylwyr.

Rydym yn casglu gwybodaeth broffilio gan ein preswylwyr am y rhan fwyaf o'r nodweddion gwarchodedig, er mwyn sicrhau bod preswylwyr ym mhob grŵp yn cael mynediad at, ac yn derbyn, yr un lefel o wasanaeth.

Mae darparu gwybodaeth bersonol yn gwbl wirfoddol. Nid oes rhaid i breswylwyr ddarparu gwybodaeth bersonol i ni, ond mae'r gyfraith yn gofyn i ni gasglu'r wybodaeth hon os gallwn. Mae'r holl ddata personol a gedwir gan Melin yn parhau i fod yn gyfrinachol, ac yn cael ei drin yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

Mae manylion ein gwybodaeth broffilio preswylwyr yn cael eu dangos yn Atodiad 2. Rydym yn cadw gwybodaeth o safon ar oedran, rhyw a hil ein preswylwyr, ond mae angen i ni gasglu mwy o wybodaeth am y nodweddion gwarchoddedig eraill, gan gynnwys anabledd a chrefydd. Mae angen hefyd i ni ddarganfod mwy am ofynion ein preswylwyr, fel y dull cysylltu dewisol, fel y gallwn wella'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu.

Mae rhai o'r prif ystadegau a gasglwyd gennym fel a ganlyn: -

- Mae 46% o'n Preswylwyr yn Wrywaidd a 54% yn Fenywaidd (Cymru: Gwrywaidd 44%, Benywaidd 56%);
- Mae 18.9% o'n Preswylwyr dros 65 oed (Cymru: 19.5%);
- Mae 30% o'n Preswylwyr wedi datgan eu bod yn cael rhyw fath o anabledd.

4.08 Adrodd

Mae adroddiadau monitro cydraddoldeb yn cael eu cynhyrchu yn flynyddol i Bwyllgor Adnoddau Dynol y Bwrdd, sy'n cynnwys gosodiadau a recriwtio. Mae adroddiadau pellach ar gael hefyd drwy'r systemau Adnoddau Dynol a Rheoli Tai ar sail barhaus.

4.09 Gweithio mewn Partneriaeth

Mae Melin yn parhau i weithio'n agos gyda nifer o bartneriaid lleol gan gynnwys:



Sefydliad yw Tai Pawb sy'n hybu cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol ym maes tai yng Nghymru ac sy'n credu bod gan bawb yr hawl i gael mynediad i dai o safon mewn cymunedau cydlynus a diogel.

Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, mae Tai Pawb yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth â darparwyr a derbynyddion gwasanaethau tai, partneriaid awdurdodau lleol, y trydydd sector (mudiadau gwirfoddol) a Llywodraeth Cymru. Mae Tai Pawb yn gweithio i hybu cydraddoldeb mewn tai ar draws y meysydd cydraddoldeb. Rydym yn ymgynghori gyda Tai Pawb ar newidiadau mewn polisi, yn hyrwyddo ein hysbysebion swyddi gyda nhw, ac yn gofyn am gyngor pan fo angen.

Rhwydwaith Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Sir Fynwy (MEDN)

Rydym yn aelod gweithgar o Rwydwaith Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Sir Fynwy, ac mae hyn yn ein galluogi i gwrdd ag amlasiantaethau fel yr Heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol, a rhannu arfer gorau.



Stonewall Cymru yw'r Elusen Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol (LHD) ar gyfer Cymru gyfan, sydd â'r nod o sicrhau cydraddoldeb ar gyfer pobl LHD gartref, yn yr ysgol, ac yn y gwaith. Mae gan Melin berthynas barhaus gyda Stonewall Cymru o ran mynychu digwyddiadau hyfforddi a chynadleddau a chael diweddariadau rheolaidd am gynigion deddfwriaeth ac arfer da.



Chwarae Teg yw'r brif asiantaeth broffesiynol ym maes datblygiad economaidd menywod yng Nghymru. Maen nhw wedi ein cynorthwyo gyda syniadau am ddenu ymgeiswyr gwrywaidd a benywaidd ar gyfer ein Gweithlu Uniongyrchol (DWF), ac maen nhw hefyd yn weithgar o ran hybu ein hysbysebion swyddi ar ein rhan.

4.10 Achrediadau



Enillodd Melin achrediad Rainbow yn 2011, sy'n cadarnhau bod anghenion ein preswylwyr Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) yn cael eu bodloni. Marc cydraddoldeb yw'r RainbowMark, sy'n cael ei noddi gan Lywodraeth Cymru a'i gefnogi gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Tai Pawb. Mae'n arwyddocâd o arfer da, ymrwymiad a gwy bodaeth am anghenion, materion a rhwystrau penodol sy'n wynebu pobl LHDT yng Nghymru.



Mae achrediad Visibly Better RNIB wedi cael ei ddyfarnu i Melin ar gyfer ein cynlluniau gwarchod. Cynllun achredu cynhwysfawr yw Visibly Better a ddatblygwyd gan RNIB Cymru i gwrdd ag anghenion y nifer cynyddol o bobl sydd â phroblemau golwg sy'n byw mewn tai gwarchod a chartrefi gofal ychwanegol.



Safon y Llywodraeth yw'r model Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid (CSE), sy'n profi i ba raddau mae'r dinesydd yn cael ei roi wrth wraidd y gwasanaethau a ddarperir. Mae Melin wedi cadw'r achrediad CSE ers 2011. Mae materion cydraddoldeb a sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu trin yn deg yn rhan graidd o'r asesiad, a'r adborth gan yr aseswyr oedd ein bod yn gweithredu system bwyntiau sy'n amlwg yn deg, er mwyn sicrhau bod y dyraniadau yn cael eu gwneud mewn ffordd deg.

5.00 DATBLYGIADAU'R DYFODOL

Mae Melin yn ymrwymedig i fod yn dryloyw deg wrth ddarparu ein holl wasanaethau, i ddeall a chefnogi ein sylfaen cwsmeriaid amrywiol yn llawn, ac i asesu'r gwahaniaeth a wnawn yn rhagweithiol.

Mae'r adran ganlynol yn nodi ein dyheadau ar gyfer delio â Chydraddoldebau o fewn Melin, ac yn gosod y sylfeini i alluogi Melin i fod yn rym blaenllaw o fewn yr arena Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

5.01 Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA)

Byddwn yn sicrhau bod polisiau rheng flaen, strategaethau, digwyddiadau a phrosiectau newydd perthnasol yn destun Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn trin pawb yn deg, a bod pob un o'r nodweddion yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn ein gweithredoedd. Bydd ein Hasesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu galw'n Adolygiadau Cydraddoldeb (ER), a bydd defnyddio'r rhain yn llawn yn cael ei hyrwyddo drwy'r holl gwmni.

Bydd Adolygiadau Cydraddoldeb yn ffordd hanfodol i ni edrych ar yr hyn rydym yn ei wneud ac i sicrhau bod ein polisiau a'n camau gweithredu yn ystyried yr holl nodweddion gwarchodedig yn llawn. Mae'n un o'r nifer o ffyrdd rydym yn gwneud yn siŵr ein bod yn siarad â phobl o amrywiaeth o gefndiroedd, ac yn defnyddio

gwybodaeth i wneud ein gorau glas i ddarparu gwasanaethau teg, cyfiawn a sensitif i anghenion.

Bydd pecyn cymorth Adolygiadau Cydraddoldeb yn cael ei ddatblygu. Ar ôl defnyddio'r Adolygiadau Cydraddoldeb, byddwn hefyd yn cynnal cofrestr o leoliadau addas i gynnal digwyddiadau corfforaethol yn y dyfodol sy'n 'ystyriol o gydraddoldeb' ac yn hygyrch i bawb.

5.02 Gwybodaeth broffilio

Ein nod yw adrodd ymhellach ar yr wybodaeth y mae ein preswylwyr a'n staff yn ei rhoi i ni. Rydym wedi ymrwmo i deilwra gwasanaethau i fodloni anghenion ein cwsmeriaid, a bydd yr wybodaeth a ddarperir yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ein dyheadau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol yn bodloni disgwyliadau. Bydd proffilio preswylwyr yn broses barhaus, a bydd yn chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu ein gwasanaethau a gweithgareddau.

5.03 Partneriaethau

Byddwn yn gweithio yn agosach gyda'n partneriaid cyfredol fel y nodir uchod i ddatblygu ein gwasanaethau ymhellach, sicrhau bod ein gweithgareddau yn hygyrch ac yn cael eu cyflwyno mewn modd teg, a defnyddio prosesau achredu i ysgogi gwelliant parhaus.

Rydym hefyd yn bwriadu gweithio mor agos ag y bo modd gydag unrhyw grwpiau a glustnodir ar draws y sbectrwm, a sicrhau ein bod yn ymgysylltu â grwpiau cymunedol lleol mewn modd effeithiol. Bydd y rhain yn cael eu clustnodi trwy ymgysylltu â chwsmeriaid a'r gymuned, cysylltiadau gyda'n partneriaid presennol a rhwydweithio amrywiol.

5.04 Grwp Ffocws

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen, sy'n cynnwys staff a chynrychiolwyr preswylwyr, i ddatblygu'r Addewid Cydraddoldeb hwn a'r Pecynnau Cymorth Adolygiadau Cydraddoldeb. Bwriedir sicrhau bod y grŵp hwn yn parhau fel y Grŵp Ffocws Cydraddoldeb, a'i fod yn cyfarfod bob chwe mis i adolygu gweithgareddau a sicrhau bod Melin yn parhau i fod y prif rym yn y byd Cydraddoldeb.

5.05 Rhwydweithiau Cydraddoldeb

Byddwn yn rhan o'r grŵp newydd Cydweithio ar Gydraddoldeb Torfaen Cyfan, i sicrhau ein bod yn chwarae rhan weithredol mewn materion Cydraddoldeb yn Nhorfaen. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith a wnawn gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Sir Fynwy, a byddwn yn anelu i ailadrodd y rhain mewn awdurdodau lleol eraill yr ydym yn gweithredu ynddynt.

Rydym yn cymryd rhan yn Ymgynghoriad Rhwydwaith Cydraddoldeb Tai Newydd Cymru drwy Tai Pawb. Ar hyn o bryd, mae Tai Pawb yn edrych ar hwyluso rhwydwaith newydd sydd wedi'i gynllunio ar gyfer darparwyr tai yng Nghymru i rannu arfer gorau, trafod arloesedd a goresgyn heriau o ran cydraddoldeb. Os bydd y rhwydwaith hwn yn cael ei ddatblygu, byddwn yn anelu at gymryd rôl arweiniol ac elwa i'r eithaf o'r cyfle.

5.06 Mynediad i Wybodaeth

Fel rhan o'n cynllun gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg presennol, mae Melin yn ymrwymedig i ddatblygu Gwefan hollol ddwyieithog erbyn mis Medi 2014. Bydd ein gwefan newydd hefyd yn hygyrch i bawb ac yn hawdd llywio o'i chwmpas. Byddwn yn sicrhau bod y wefan yn defnyddio lliwiau llachar, a bydd meintiau ffont yn newidiol yn dibynnu ar yr anghenion.

Bydd ein Haddewid Cydraddoldeb yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg ac ar gael drwy ein gwefan. Bydd y ddogfen hefyd ar gael mewn unrhyw iaith arall ar gais.

5.07 Tryloywder

Mae Melin yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau agored a thryloyw i bob un o'n cwsmeriaid, a byddwn yn rhannu ein mesurau perfformiad yn agored ac mewn modd adeiladol. Bydd Melin yn cyhoeddi diweddariadau ar ddata Cydraddoldeb yn rheolaidd drwy ein gwefan, i hyrwyddo tegwch ein gwasanaethau. Bydd Melin hefyd yn paratoi adroddiad monitro Cydraddoldeb blynyddol, sy'n dangos y cynnydd yn erbyn ein targedau ac sy'n adolygu effeithiolrwydd ein gwasanaethau. Bydd hyn yn cael ei baratoi ar gyfer y Pwyllgor Adnoddau Dynol ym mis Rhagfyr bob blwyddyn, a'i gyhoeddi ar y wefan yn fuan wedyn.

6.00 TARGEDAU

Mae crynodeb o'n targedau a'n graddfeydd amser perthnasol yn cael ei ddarparu yn y tabl isod:

Cam gweithredu	Dolen adran	Graddfa amser
Sefydlu Grŵp Ffocws ar Gydraddoldeb	5.04	Hydref 2013
Cyhoeddi'r Addewid Cydraddoldeb yn Gymraeg a Saesneg ar ein gwefan	5.06	Hydref 2013
Datblygu'r Pecyn Cymorth Adolygiadau Cydraddoldeb	5.01	Rhagfyr 2013
Paratoi Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol	5.07	Rhagfyr 2013
Dod o hyd i sbectrwm amrywiol o grwpiau i ymgysylltu â nhw ac i wella rhwydweithio	5.03	Ionawr 2014
Dod o hyd i brosesau achredu Cydraddoldeb perthnasol	5.03	Mawrth 2014
Gwneud yr Adolygiad Cydraddoldeb yn rhan annatod o'r broses adolygu polisi a gwerthuso prosiectau a digwyddiadau newydd	5.01	Ebrill 2014
Datblygu cyfres o adroddiadau Cydraddoldeb sy'n cael eu diweddarau, eu hadolygu a'u hadrodd arnynt yn rheolaidd.	5.02	Ebrill 2014
Datblygu gwefan dwyieithog	5.06	Ebrill 2014
Cymryd rhan ymhob Rhwydwaith Cydraddoldeb perthnasol ar draws yr ardaloedd rydym yn gweithio ynddynt	5.05	Parhaus

7.00 MONITRO AC ADOLYGU

Bydd yr Addewid Cydraddoldeb hwn yn cael ei adolygu yn flynyddol, a bydd cynnydd a'r camau gweithredu yn cael eu monitro gan y Grŵp Ffocws Cydraddoldeb a'r Grŵp Arweinyddiaeth bob chwe mis.

Bydd Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol yn cael ei baratoi ar gyfer y Pwyllgor Adnoddau Dynol, a fydd yn monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu, yn adolygu effeithiolrwydd ein proses, ac yn rhoi sicrwydd bod ein gwasanaethau yn parhau i gael eu darparu yn deg.

Atodiad 2

GWYBODAETH PROFFILIO CYDRADDOLDEB


Rydym wedi casglu llawer iawn o wybodaeth Cydraddoldeb am ein Preswylwyr, ac wedi cymharu hon â'r wybodaeth Cyfrifiad sydd ar gael ac sy'n berthnasol i Gymru lle bynnag y bo'n bosibl.

OEDRAN			CREFYDD		
	Preswylwyr Melin	Cymru Gyfan		Preswylwyr Melin	
0 - 17	12.65%	18.03%		Cristion	58.94%
18 - 24	7.92%	14.27%		Dim Crefydd	36.80%
25 - 39	24.89%	12.52%		Arall	2.13%
40 - 54	22.25%	22.07%		Mwslim	1.31%
55 - 64	13.37%	13.61%		Hindŵ	0.41%
65+	18.93%	19.51%		Bwdist	0.34%
				Sikh	0.07%


RHYWEDD			RHYWIOLDEB		
	Preswylwyr Melin	Cyfartaledd Cymru Gyfan		Preswylwyr Melin	Cyfartaledd Cymru Gyfan
Benywaidd	55.65%	51%		Heterorywiol	97.79%
Gwrywaidd	44.35%	49%		Hoyw/Lesbi-aidd/Deurywiol	1.56%
				Arall	0.65%
					3.65%

ETHNIGRWYDD										
Labeli Rhesi	Gwyn Prydeinig	Poblogaeth Leol	Arall	Gwyn Arall	PACISTA-NAIDD	Du	INDIAIDD	Tsie-inëeg	Asi-aidd	ARA-BAIDD
BGCBC	98.8%	97.96%	0.9%	0.3%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%
MCC	98.8%	96.7%	0.3%	0.5%	0.1%	0.4%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%
NCC	90.5%	93.8%	3.0%	1.7%	1.3%	2.1%	0.0%	0.8%	0.5%	0.2%
PCC	93.8%	97.19%	6.2%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%
TCBC	97.7%	97.79%	1.3%	0.7%	0.0%	0.0%	0.2%	0.1%	0.0%	0.0%

Anabledau Preswylwyr Melin



Ieithoedd a siaredir gan Breswylwyr Melin



Arall: Tsieinëeg Mandarin, Pwyleg, Gwjarati a Chymraeg

Rydym wedi casglu gwybodaeth am ein gosodiadau yn yr Awdurdodau Lleol rydym yn gweithredu ynddynt.

ETHNIGRWYDD							
Labeli Rhesi	Gwyn Prydeinig	Poblogaeth Leol	Arall	Gwyn Arall	PACISTA-NAIDD	DU	Bangladeshaid
BGCBC	97.06%	97.96%	2.94%	0%	0%	0%	0%
MCC	96.83%	96.7%	1.59%	1.59%	0%	0%	0%
NCC	86.49%	93.8%	4.05%	5.4%	1.35%	1.35%	1.35%
PCC	100%	97.19%	0%	0%	0%	0%	0%
TCBC	99.39%	97.79%	0%	0.61%	0%	0%	0%

Gwybodaeth staff

Rhywedd	Melin Homes %	Gwybodaeth Ddemograffig %
Gwrywaidd	46	49
Benywaidd	55	51

Grŵp Ethnig		
Gwyn	91	95
Dim yn wyn	9	5

Anabled		
Anabl	1	13
Dim yn Anabl	99	87

Cyfeiriadedd Rhywiol		
Heterorywiol	54	99.9
Arall (Hoyw / Lesbiaidd / Deurywiol)	3	0.01
Heb ei Ddatgan	43	-

Data Recriwtio Melin

Rhywedd	Melin Homes %	Gwybodaeth Ddemograffig %
Gwrywaidd	42	49
Benywaidd	46	51
Heb ei Ddatgan	12	-

Grŵp Ethnig		
Gwyn	88	95
Dim yn wyn	3	5
Heb ei ddatgan	9	-

Anabledd		
Anabl	1	13
Dim yn Anabl	99	87

Cyfeiriadedd Rhywiol	Melin Homes %	Gwybodaeth Ddemograffig %
Heterorywiol	82	99.9
Arall (Hoyw / Lesbiaidd / Deurywiol)	3	0.01
Heb ei Ddatgan	15	-